Sunday 15th November 2026
+ The Third Sunday of the Kingdom

reading from Zephaniah

Heavenly Father, your blessed Son was revealed to destroy the works of the devil and to make us the children of God and heirs of eternal life : grant that we, having this hope, may purify ourselves even as he is pure; that when he shall appear in power and great glory we may be made like him in his eternal and glorious kingdom; grant this for the sake of your Son Jesus Christ, to whom with you and the Holy Spirit, be the kingdom, the power and the glory, for ever and ever. AMEN

The reading from Zephaniah
(1.7, 12-18)

Be silent before the Lord God! For the day of the Lord is at hand; the Lord has prepared a sacrifice, he has consecrated his guests.

At that time I will search Jerusalem with lamps, and I will punish the people who rest complacently on their dregs, those who say in their hearts, 'The Lord will not do good, nor will he do harm.' Their wealth shall be plundered, and their houses laid waste. Though they build houses, they shall not inhabit them; though they plant vineyards, they shall not drink wine from them.

The great day of the Lord is near, near and hastening fast; the sound of the day of the Lord is bitter, the warrior cries aloud there. That day will be a day of wrath, a day of distress and anguish, a day of ruin and devastation, a day of darkness and gloom, a day of clouds and thick darkness, a day of trumpet blast and battle cry against the fortified cities and against the lofty battlements.

I will bring such distress upon people that they shall walk like the blind; because they have sinned against the Lord, their blood shall be poured out like dust, and their flesh like dung. Neither their silver nor their gold will be able to save them on the day of the Lord's wrath; in the fire of his passion the whole earth shall be consumed; for a full, a terrible end he will make of all the inhabitants of the earth.

The Psalm
(90. 1-8)

Lord, you have / been our / refuge: from one gene/ration / to a/nother. Before the mountains were brought forth, or the earth and the / world were / formed: from everlasting to ever/lasting / you are / God.

You turn us back to / dust and / say: 'Turn / back, O / children of / earth.' For a thousand years in your sight are / but as / yesterday: which passes / like a / watch in the / night.

You sweep them away / like a / dream: they fade away / suddenly / like the / grass. In the morning it is / green and / flourishes: in the evening it is / dried / up and / withered.

For we consume away in / your dis/pleasure: we are afraid at your / wrathful / indig/nation. You have set our mis/deeds be/fore you: and our secret sins / in the / light of your / countenance.

The reading from 1 Thessalonians
(5.1-11)

Concerning the times and the seasons, brothers and sisters, you do not need to have anything written to you. For you yourselves know very well that the day of the Lord will come like a thief in the night. When they say, 'There is peace and security', then sudden destruction will come upon them, as labour pains come upon a pregnant woman, and there will be no escape!

But you, beloved, are not in darkness, for that day to surprise you like a thief; for you are all children of light and children of the day; we are not of the night or of darkness. So then, let us not fall asleep as others do, but let us keep awake and be sober; for those who sleep sleep at night, and those who are drunk get drunk at night. But since we belong to the day, let us be sober, and put on the breastplate of faith and love, and for a helmet the hope of salvation.

For God has destined us not for wrath but for obtaining salvation through our Lord Jesus Christ, who died for us, so that whether we are awake or asleep we may live with him. Therefore encourage one another and build up each other, as indeed you are doing.

The reading from the Gospel according to Saint Matthew
(25.14-30)

Jesus said to his disciples, "The Kingdom of heaven is as if a man, going on a journey, summoned his slaves and entrusted his property to them; to one he gave five talents, to another two, to another one, to each according to his ability. Then he went away.

'The one who had received the five talents went off at once and traded with them, and made five more talents. In the same way, the one who had the two talents made two more talents. But the one who had received the one talent went off and dug a hole in the ground and hid his master's money.

'After a long time the master of those slaves came and settled accounts with them. Then the one who had received the five talents came forward, bringing five more talents, saying, "Master, you handed over to me five talents; see, I have made five more talents." His master said to him, "Well done, good and trustworthy slave; you have been trustworthy in a few things, I will put you in charge of many things; enter into the joy of your master."

'And the one with the two talents also came forward, saying, "Master, you handed over to me two talents; see, I have made two more talents." His master said to him, "Well done, good and trustworthy slave; you have been trustworthy in a few things, I will put you in charge of many things; enter into the joy of your master."

'Then the one who had received the one talent also came forward, saying, "Master, I knew that you were a harsh man, reaping where you did not sow, and gathering where you did not scatter seed; so I was afraid, and I went and hid your talent in the ground. Here you have what is yours." But his master replied, "You wicked and lazy slave! You knew, did you, that I reap where I did not sow, and gather where I did not scatter? Then you ought to have invested my money with the bankers, and on my return I would have received what was my own with interest. So take the talent from him, and give it to the one with the ten talents.

'"For to all those who have, more will be given, and they will have an abundance; but from those who have nothing, even what they have will be taken away. As for this worthless slave, throw him into the outer darkness, where there will be weeping and gnashing of teeth."'

reading from Zephaniah

Gracious Lord, in this holy sacrament you give substance to our hope : bring us at the last to that fullness of life for which we long; through Jesus Christ our Saviour. AMEN

Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book *New Calendar and the Collects.* Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN –

1853115495. Quotations and Psalms from *The New Revised Standard Version (Anglicized Edition)*, copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

Dydd Sul 15fed Tachwedd 2026
+ Trydydd Sul y Deyrnas

Colect y dydd

Dad nefol, y datguddiwyd dy fendigedig Fab i ddatod gweithredoedd y diafol a'n gwneud ni'n blant i Dduw ac yn etifeddion bywyd tragwyddol, caniatâ i ni, a'r gobaith hwn gennym, ein puro ein hunain fel y mae ef yn bur; fel, pan ddaw drachefn mewn nerth a gogoniant mawr y gwneir ni'n debyg iddo ef yn ei deyrnas ogoneddus a thragwyddol; caniatâ hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd. AMEN

Darlleniad o Seffaneia
(1.7, 12-18)

Distawrwydd o flaen yr Arglwydd DDUW! Oherwydd y mae dydd yr ARGLWYDD yn agos; y mae'r ARGLWYDD wedi paratoi aberth ac wedi cysegru ei wahoddedigion.

"Yn yr amser hwnnw chwiliaf Jerwsalem â llusernau, a chosbaf y rhai sy'n ymbesgi uwch eu gwaddod ac yn dweud wrthynt eu hunain, 'Ni wna'r ARGLWYDD na da na drwg.' Anrheithir eu cyfoeth a difethir eu tai; codant dai, ond ni chânt fyw ynddynt; plannant winllannoedd, ond ni chânt yfed eu gwin."

Y mae dydd mawr yr ARGLWYDD yn agos, yn agos ac yn dod yn gyflym; chwerw yw trwst dydd yr ARGLWYDD, ac yna y gwaedda'r rhyfelwr yn uchel. Dydd dicter yw'r dydd hwnnw, dydd blinder a gofid, dydd dinistr a difrod, dydd tywyllwch a düwch, dydd cymylau a chaddug, dydd utgorn a bloedd rhyfel yn erbyn y dinasoedd caerog ac yn erbyn y tyrau uchel.

"Mi ddof â thrybini ar bobl, a cherddant fel deillion; am iddynt bechu yn erbyn yr ARGLWYDD tywelltir eu gwaed fel llwch a'u perfedd fel tom, ac ni all eu harian na'u haur eu gwaredu." Ar ddydd dicter yr ARGLWYDD ysir yr holl dir â thân ei lid, oherwydd gwna ddiwedd, ie, yn fuan, ar holl drigolion y ddaear."

Y Salm
(90. 1-8)

Arglwydd, buost yn amddiffynfa i ni ymhob cenhedlaeth. Cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw.

Yr wyt yn troi pobl yn ôl i'r llwch, ac yn dweud, "Trowch yn ôl, chwi feidrolion." Oherwydd y mae mil o flynyddoedd yn dy olwg fel doe sydd wedi mynd heibio, ac fel gwyliadwriaeth yn y nos.

Yr wyt yn eu sgubo ymaith fel breuddwyd; y maent fel gwellt yn adfywio yn y bore — yn tyfu ac yn adfywio yn y bore, ond erbyn yr hwyr yn gwywo ac yn crino.

Oherwydd yr ydym ni yn darfod gan dy ddig, ac wedi'n brawychu gan dy gynddaredd. Gosodaist ein camweddau o'th flaen, ein pechodau dirgel yng ngoleuni dy wyneb.

Darlleniad o I Thesaloniaid
(5.1-11)

Ynglŷn â'r amseroedd a'r prydiau, gyfeillion, nid oes arnoch angen i neb ysgrifennu atoch. Oherwydd yr ydych yn gwybod yn iawn mai fel lleidr yn y nos y daw Dydd yr Arglwydd. Pan fydd pobl yn dweud, "Dyma dangnefedd a diogelwch", dyna'r pryd y daw dinistr disymwth ar eu gwarthaf fel gwewyr esgor ar wraig feichiog, ac ni fydd dim dianc iddynt.

Ond nid ydych chwi, gyfeillion, mewn tywyllwch, i'r Dydd eich goddiweddyd fel lleidr; pobl y goleuni, pobl y dydd, ydych chwi oll. Nid ydym yn perthyn i'r nos nac i'r tywyllwch. Am hynny, rhaid inni beidio â chysgu, fel y rhelyw, ond bod yn effro a sobr. Y rhai sydd yn cysgu, yn y nos y maent yn cysgu, a'r rhai sydd yn meddwi, yn y nos y maent yn meddwi. Ond gan ein bod ni'n perthyn i'r dydd, gadewch inni fod yn sobr, gan wisgo amdanom ffydd a chariad yn ddwyfronneg, a gobaith iachawdwriaeth yn helm.

Oherwydd nid i ddigofaint y penododd Duw ni, ond i feddu iachawdwriaeth drwy ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a fu farw drosom, er mwyn inni gael byw gydag ef, prun bynnag ai yn effro ai yn cysgu y byddwn. Am hynny, calonogwch eich gilydd, ac adeiladwch bob un ei gilydd — fel, yn wir, yr ydych yn gwneud.

Darlleniad Efengyl o Sant Mathew
(25.14-30)

"Y mae fel dyn a oedd yn mynd oddi cartref ac a alwodd ei weision a rhoi ei eiddo yn eu gofal. I un fe roddodd bum cod o arian, i un arall ddwy, i un arall un, i bob un yn ôl ei allu, ac fe aeth oddi cartref.

"Ar unwaith aeth yr un a dderbyniodd bum cod a masnachu â hwy, ac fe enillodd atynt bump arall. Felly hefyd enillodd yr un a gafodd ddwy god ddwy arall atynt. Ond y sawl a dderbyniodd un god, aeth ef ymaith a chloddio twll yn y ddaear a chuddio arian ei feistr.

"Ymhen cryn dipyn o amser daeth meistr y gweision hynny yn ôl ac fe adolygodd eu cyfrifon hwy. Daeth yr un a dderbyniodd bum cod a chyflwyno iddo bump arall. 'Meistr,' meddai, 'rhoddaist bum cod o arian yn fy ngofal; dyma bum cod arall a enillais i atynt.' 'Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon,' meddai ei feistr wrtho, 'buost yn ffyddlon wrth ofalu am ychydig, fe osodaf lawer yn dy ofal; tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr.'

"Yna daeth yr un â'r ddwy god, a dywedodd, 'Meistr, rhoddaist ddwy god o arian yn fy ngofal; dyma ddwy god arall a enillais i atynt.' Meddai ei feistr wrtho, 'Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon; buost yn ffyddlon wrth ofalu am ychydig, fe osodaf lawer yn dy ofal; tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr.'

"Yna daeth yr un oedd wedi derbyn un god, a dywedodd, 'Meistr, gwyddwn dy fod yn ddyn caled, yn medi lle heuodd eraill ac yn casglu lle gwasgarodd eraill. Yn fy ofn euthum a chuddio dy god o arian yn y ddaear. Dyma i ti dy eiddo yn ôl.' Atebodd ei feistr ef, 'Y gwas drwg a diog, yr oeddit yn gwybod, meddi, fy mod yn medi lle heuodd eraill ac yn casglu lle gwasgarodd eraill. Dylit felly fod wedi gosod fy arian yn y banc, a buasai fy eiddo wedi ennill llog erbyn i mi ddod i'w hawlio. Felly cymerwch y god o arian oddi arno a rhowch hi i'r un a chanddo ddeg cod.

"'Oherwydd i bawb y mae ganddo y rhoddir, a bydd ar ben ei ddigon, ond oddi ar yr hwn nad oes ganddo fe gymerir hyd yn oed hynny sydd ganddo. A bwriwch y gwas diwerth i'r tywyllwch eithaf; bydd yno wylo a rhincian dannedd.'"

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dduw grasol, yn y sacrament sanctaidd hwn rwyt yn rhoi sylwedd i'n gobaith : dwg ni yn y diwedd at y bywyd cyflawn hwnnw yr ydym yn dyheu amdano; trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr. AMEN

Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r

Ilyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004* Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.